**From:** **edwvalleydesigns** info@edwvalleydesigns.co.uk
**Subject:** Fwd: Bwletin Coronafeirws Powys/Powys Coronavirus Bulletin - 01/07/20
**Date:** 3 July 2020 at 19:03
**To:**




**Ffigurau Covid-19**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi bod 26 o achosion newydd o'r coronafeirws wedi'i gadarnhau yng Nghymru, gan ddod â chyfanswm yr achosion i 15,743 gydag un achos newydd ym Mhowys. Cyfanswm yr achosion yn y sir yw 301, er mae'r ffigwr hwnnw'n debygol o fod yn llawer uwch.

Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar nifer y rhai fu farw ym Mhowys o ganlyniad i'r COVID-19 neu'n rhannol ar 13 Mehefin oedd 89 **–** 46 mewn cartrefi gofal, 36 mewn ysbytai a saith gartref.

O ddiwedd 30 Mehefin, dynodwyd 29 o achosion positif ar gyfer Olrhain Cysylltiadau a llwyddwyd i olrhain y cysylltiadau i gyd. Mae hyn wedi arwain at nodi 44 o gysylltiadau. Rhoddwyd cyngor a chanllawiau priodol ar hunan-ynysu i'r holl gysylltiadau hyn.

Mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Jane Hutt wedi cyhoeddi y bydd gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru'n derbyn £1.5m yn ychwanegol i'w helpu i ymateb i alw cynyddol ar wasanaethau o ganlyniad i Covid-19.

Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol i'r £5.25m a gyhoeddwyd yn y gyllideb eleni a bydd yn helpu darparwyr gwasanaethau i ymdopi â'r cynnydd a ddisgwylir yn y galw wrth lacio cyfyngiadau symud:https://llyw.cymru/bydd-cyllid-newydd-gan-lywodraeth-cymru-yn-helpu-dioddefwyr-a-goroeswyr-cam-drin-domestig-i-fyw-heb-ofn

Yn ôl Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates mae Llywodraeth Cymru'n ehangu mesurau i warchod busnesau a effeithiwyd gan y coronafeirws rhag cael eu troi allan dros yr haf. Daw'r estyniad i'r moratoriwm ar fforffedu prydlesau masnachol wrth i fusnesau masnachu nad ydynt yn hanfodol ddechrau ailagor yng Nghymru. Er y dylid talu rhenti sy'n ddyledus lle'n bosibl, bydd y mesurau'n sicrhau na fydd unrhyw fusnes yn cael ei droi allan os bydd yn methu talu dros y tri mis nesaf.

Roedd y mesur hwn i ddod i ben ar 30 Mehefin ond mae wedi'i ymestyn tan 30 Medi a bydd yn helpu'r economi yng Nghymru. Bydd yn osgoi troi busnesau allan yn afresymol, helpu i warchod swyddi a diogelu busnesau a oedd yn masnachu cyn y pandemig: https://llyw.cymru/llywodraeth-cymru-yn-estyn-mesurau-er-mwyn-diogelu-busnesau-y-maer-coronafeirws-wedi-effeithio

———————————————

- Rheoliadau coronafeirws - cwestiynau cyffredin
- Cwestiynau cyson ar addysg bellach ac uwch
- Datganiad ysgrifenedig ar PPE sydd ar gael
- Cwestiynau cyson ar rol ysgolion dros y pandemig.

Mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru - https://llyw.cymru/coronafeirws

**I weld manylion y camau allweddol blaenorol ewch i:**https://cy.powys.gov.uk/coronafeirws/camauallweddol

**Covid-19 figures**

Public Health Wales has reported a further 26 new confirmed cases of coronavirus in Wales, bringing the total number of cases to 15,743, with one new case in Powys, the total for the county stands at 301 cases although the figure is likely to be much higher.

Figures issued by the Office of National Statistics (ONS) on the number of deaths in Powys attributed, either wholly or in part to COVID-19, as at June 13 was 89 – 46 in care homes, 36 in hospital and seven at home.

As of the end of the 30th of June there have been 29 positive cases identified for Contact Tracing all of which have all been successfully Contact Traced. This has led to the identification of 44 contacts. Appropriate self-isolation advice and guidance has been provided to all such contacts.

The Deputy Minister and Chief Whip Jane Hutt has announced violence against women, domestic abuse and sexual violence (VAWDASV) services in Wales will receive an additional £1.5m to help them respond to increased demands on services as a result of Covid-19.

The new funding is in addition to the £5.25m announced in this year's budget and will help VAWDASV service providers to cope with an expected spike in demand as lockdown measures are lifted: https://gov.wales/new-welsh-government-funding-will-help-victims-and-survivors-domestic-abuse-live-fear-free

The Welsh Government is extending measures to protect businesses affected by coronavirus from eviction during the summer, Minister for Economy, Transport and North Wales Ken Skates, has announced. The extension to the moratorium on commercial lease forfeitures comes as non-essential retail businesses began reopening in Wales last week. Although rent due should be paid whenever possible, this measure will ensure no business is forced out of its premises if it misses a payment in the next three months.

The measure was due to expire on June 30, but has now been extended to September 30, and will help support the economic recovery across Wales. It will prevent unreasonable evictions, help protect jobs and safeguard businesses which were trading before the pandemic: https://gov.wales/welsh-government-extend-measures-protect-businesses-impacted-coronavirus-eviction-during-summer

———————————————

- Coronavirus regulations: frequently asked questions
- FAQs for higher and further education
- Written statement on the availability of PPE
- FAQs on the role of schools during the coronavirus pandemic.

More information from Welsh Government - https://gov.wales/coronavirus

**For previous actions visit:**https://en.powys.gov.uk/coronavirus/pcckeyactions

Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.